

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai ar nos Iau 8 Mawrth, 2018 am 1900

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Wyn Bowen Harris a Megan Tomos.

3. John Roberts-Rheolwr Prosiect Datblygu, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Daeth John i'r cyfarfod i drafod gyda ni amcanion y prosiect. Roedd wedi cyfarfod o flaen llaw gyda'r Cyng. Geraint Hughes, Margaret Fernley a Megan Tomos, lle cafwyd llawer o syniadau da oedd yn berthnasol i'r prosiect. Eglurodd mai cynllun dros 5 mlynedd oedd y prosiect, ar 4 thema sef Darganfod, Cofnodi, Gwarchod a Dathlu. Diolchwyd i John am ei amser ac am ddod i drafod gyda ni. Ymrwymodd i ddod yn ôl ym mis Medi i roi diweddariad ar y gwaith ymgynghori.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Arriva- Y Cyngor yn anhapus gyda'r broses ymgynghori. Y Cyng. Megan Tomos wedi ysgrifennu at y Cyng. Dafydd Meurig a Paul Rowlinson, ac hefyd at Sian Gwenllian a Hywel Williams AS. Y Cyng. Megan Tomos ddim yn bresennol i'n diweddaru.

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod ar y safle gyda'r Cyng. Geraint Hughes a Alun Thomas, lle derbyniwyd bod cyflwr y palmant yn warthus. Cytunodd Cyngor Gwynedd i drin y safle yn yr wythnosau nesaf.

Eglwys Llan- y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Dim ymateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd hyd yn hyn. Y Clerc i gysylltu unwaith eto.

System atal-llifogydd – cais wedi ei wneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am holl gostau'r system. Cafwyd ymateb mai £1,063,000 oedd y costau ar hyn o bryd, ond nid yw'r gwaith wedi ei orffen. Penderfynwyd holi am ffigyrau mwy manwl, o dan penawdau cyllid.

Tyllau yn y lôn- ar Lôn Ddŵr o dan y pont rheilffordd ac ar y ffordd fyny at y Llechan. Hefyd ar y ffordd rhwng Bryn Eithin a Bronydd Isaf, yn enwedig wrth Bowls a Llwyn Penddu. Yr arolygwr ffyrdd am archwilio'r lleoliad a gweithredu yn unol a Chynllun Cynnal Asedau Priffyrdd.

Chwarel y Bryn- Y Clerc wedi hysbysu Stad Penrhyn bod rhywun wedi taflu'r cylch cynorthwydd bywyd i mewn i'r llyn. Y cylch nawr yn ôl ar y postyn.

Sêl wyna- penderfynwyd anfon nodyn atgoffa drwy lythyr wedi ei gofnodi.

Cae chwarae Tal y Bont- angen gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i hel syniadau ar gyfer hybu defnydd o'r cae chwarae.

Tan y Marian- y polyn wrth y tro yn gwyro i'r ffordd. Cyngor Gwynedd am gael golwg a gweithredu fel bod angen.

6. Taliadau

Dim taliadau i'w gwneud.

7. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- llythyr gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth 2018/19. Penderfynwyd i beidio a ymaelodi.

Cyflwynwyd- e-bost gan Airfields of Britain Conservation Trust ynglŷn a gosod plac coffa ym Mangor/Aberogwen. Penderfynwyd bydd y Cyng. Geraint Hughes yn trafod ymhellach gyda Mr D Pritchard o'r fferm gyfagos er mwyn trafod lleoliad y plac. Y Clerc i anfon y linc o'r map sy'n dangos union leoliad ble'r oedd y maes awyr i'r cynghorwyr.

Cyflwynwyd-e-bost gan Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu Cyngor Gwynedd-ynglŷn a gwella'r darpariaeth ailgylchu ar gyfer Tan y Garth, Gerlan. Penderfynwyd trefnu cyfarfod ar y safle i drafod ymhellach.

Cyflwynwyd- e-bost gan Tîm Cymorth Craffu, Cynulliad Cenedlaethol Cymru-ymgyngoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- e-bost gan Partneriaethau Leol, Llywodraeth Cymru-cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018/19. Penderfynwyd anfon y wybodaeth ymlaen at Partneriaeth Ogwen.

Cyflwynwyd- e-bost gan Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd-ynglŷn a cyfyngiadau parcio arfaethedig- bae parcio ar gyfer deiliaid trwydded breswyl anabl yn unig yn Dôl Helyg, Talybont. Penderfynwyd bod dim gwrthwynebiad i'r cais.

Cyflwynwyd- llythyr gan Menai Strait Fishery Order Management Association ynglŷn a adnewyddiad 'Menai Strait Oyster and Mussel Fishery Order 1962'. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch, a gofyn am gael ein diweddarau gyda unrhyw newidiadau.

8. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Cyfarfod pysgotwyr Afon Ogwen- y Cyng. Evan Jones wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus 21 Chwefror 2018. Roedd y cyfarfod i drafod bwriad CNC i newid y ddeddf

parthed pysgota i orfodi dal a gollwng. , er mwyn gwarchod gostyngiad yn nifer eogiaid a siwin. Penderfynwyd ysgrifennu at Lesley Griffiths AC, i gefnogi'r pysgotwyr. Byddai'r penderfyniad yn cael effaith andwyol ar sawl lefel- yr economi leol, twristiaeth, effaith i'r gwrthwyneb ar lefelau stoc, ac mae'n ymosodiad arall ar fywyd cefn gwlad.

9.Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/14B

2 Pencarreg, Nant Ffrancon

Trosi a newidiadau i'r tŷ i greu dau uned llety hunan-arlwygo tymor byr. Adeiladu sied storfa bren a decin pren yn yr ardd gefn.

Caniatawyd, gydag amodau.

Ceisiadau Cynllunio:

C18/0081/21/LL

78 Bro Emrys, Talybont

Estyniad blaen

Dim gwrthwynebiad

10. Materion Brys

Cloddiau Stad Penrhyn- y cloddiau heb cael eu torri yn iawn ers 5 mlynedd.

Penderfynwyd anfon llythyr at Ymddiriedolwyr y Stad i ddod a'r mater i'w sylw.

Bin halen- adroddwyd bod y bin yn Chwarel Bryn angen ei lenwi. Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd. Pawb i gael golwg ar y biniau agosaf i wirio os oes angen halen neu beidio.

Lon Ddŵr – adroddwyd bod arwyddion ar y safle i hysbysu bydd y ffordd ar gau 22 Mawrth 2018 08.00-16.00. Nid oes unrhyw ohebiaeth wedi dod gan Gyngor Gwynedd. Y Clerc i holi.

Allt Tŷ'n Hendre- adroddwyd bod sbwriel wedi ei adael yn y ffordd. Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn yn barod.